# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol

## Bro Morgannwg (Sefydlu) 2000

**Y Cefndir**

Gwnaeth adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 ("y Ddeddf") ddarpariaeth i sefydlu Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Iechyd Gwladol ("Ymddiriedolaethau NHS") yn wreiddiol "to assume responsibility in accordance with (the) Act, for the ownership of hospitals or other establishments or facilities which were previously managed or provided by health authorities or special health authorities".

Ers diwygio'r Ddeddf, "provide goods and services for the purposes of the Health Service" yw'r swyddogaethau bellach.

Cafodd nifer o Ymddiriedolaethau NHS eu sefydlu yng Nghymru ym 1998/99, ac un ohonynt oedd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg a ofalai am ardaloedd Castell-nedd/Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth drwy orchymyn, sef Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg (Sefydlu) 1998 ("y Gorchymyn gwreiddiol"), a wnaed o dan y Ddeddf. Pennwyd mai prif swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth fyddai "own and manage" Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd.

Mae'r Gorchymyn presennol yn diwygio'r Gorchymyn gwreiddiol i newid natur y swyddogaethau i "providing goods and services for the purposes of the Health Service" ar gyfer yr ysbytai y cyfeirir atynt uchod, ac yn ychwanegol at hynny, ysbyty newydd sydd i'w adeiladu yn Ffordd Baglan, Port Talbot.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth fod Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd yn cau cyn bo hir a bod y gwasanaethau yn cael eu trosglwyddo i'r ysbyty newydd y cyfeiriwyd ati.

Bu'r trefniadau'n destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Paragraff Cyflwyno**

Enwir paragraff 3 o Atodlen 2 o’r Ddeddf fel per galluogi Mae paragraff 3 yn ymwneud â manylion ar gyfer y gorchymyn cyntaf sy’n ymwneud ag Ymddiriedolaeth NHS ac â dyddiad cyfrifo Ymddiriedolaeth o’r fath. Gan nad yw’r naill na’r llall yn berthnasol yn yr achos hwn, ni ddylid cynnwys paragraff 3.

**Erthygl 3(2)**

Gofynnir pam, wrth restru tri ysbyty perthnasol, y cyfeirir atynt fel "hospitals, establishments and facilities" yn hytrach nag yn ddi-lol fel ysbytai, pan yw’r frawddeg yn mynd rhagddi i ddweud y gellid cyflawni’r swyddogaethau hefyd "and at or from any associated hospitals, establishments and facilities". Diffinnir "hospital" yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i gynnwys "clinics, dispensaries and out-patient departments" ac felly, oni bai fod rheswm penodol dros ei gynnwys, mae’r cyfeiriad at "establishments and facilities" wrth restru’r ysbytai y mae’r Gorchymyn yn berthnasol iddynt yn peri dryswch.

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**18 Ebrill 2000**

Ein cyf: LAD 01-01-110